# Datganiad Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i gefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg, gan sicrhau bod ei wasanaethau a'i weithgareddau yn hyrwyddo ac yn hybu defnydd o'r Gymraeg ledled y Sir.

**SAFONAU'R GYMRAEG GWASANAETH Y CYNGOR**

Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor, na ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac y dylai personau yng Nghymru fedru byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Ieithoedd swyddogol Cyngor Sir Ceredigion yw'r Gymraeg a'r Saesneg a bydd iddynt yr un statws a dilysrwydd yng ngweithrediad y Cyngor.

**CYFATHREBU ALLANOL**

Mae gan bob aelod o'r cyhoedd yng Ngheredigion yr hawl i ddewis ym mha iaith y mae'n dymuno delio â'r Cyngor a'i waith, ac mae'n ofynnol i staff y Cyngor ymateb yn gadarnhaol i'r dewis hwn.

Fel Cyngor, ein nodau strategol yw:

- Ymrwymo i fod yn sefydliad dwyieithog pan fyddwn yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, pan fyddwn yn gweithio gyda phartneriaid ac yn ein gweinyddiaeth fewnol ¬
- Byddwn yn annog ein gweithlu i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg. Mae holl wasanaethau Cyngor Sir Ceredigion yn gallu gweithredu gyda dealltwriaeth effeithiol o'r cymunedau dwyieithog mae'n ei wasanaethu ac yn medru uniaethu â hwy.
- Cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr y gwasanaethau pan fyddant yn cysylltu â'r Cyngor a sicrhau parhad yn y dyfodol
- Parchu'r ffaith fod unigolion yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith ac mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw hynny
- Gweithio tuag at sicrhau bod yr holl wasanaethau ar gael yn y ddwy iaith, Cymraeg a Saesneg, eu bod yn gydradd o ran safon ac ansawdd, a bod y cyhoedd yn ymwybodol bod y gwasanaethau hyn ar gael
- Cynyddu defnydd o'r iaith yn fewnol drwy godi ymwybyddiaeth ymysg y staff o bwysigrwydd darparu gwasanaethau dwyieithog. Cynyddu yn raddol cyfran y staff ar bob lefel sydd â'r gallu a'r hyder i siarad ac ysgrifennu Cymraeg, er mwyn cyflawni egwyddorion Safonau'r Gymraeg.
- Cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyflawni amcanion Strategaeth y Gymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr Cymraeg Cyfeirnod:

  Cyfeiriwch at Safonau'r Gymraeg sydd wedi ei gosod ar Gyngor Sir Ceredigion gan Gomisiynydd y Gymraeg.

**CYFATHREBU MEWNOL**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gefnogol iawn i'r iaith Gymraeg, mae'n un o nodweddion pwysicaf y Sir. Os ydyn ni am weld y Gymraeg yn ffynnu mae'n rhaid i ni ei defnyddio hi - a'i defnyddio hi ym mhob agwedd yn ein bywydau, gan gynnwys yn y gwaith. Er mwyn cynyddu a normaleiddio defnydd y Gymraeg yn fewnol mae'r Cyngor am gynyddu'r cyfleoedd i staff ddefnyddio eu hiaith ddewisol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn eu gweithleoedd ac wrth gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd. Gan hynny, mae'r Cyngor:

- yn annog staff i siarad Cymraeg ar bob achlysur posibl,
- yn cefnogi staff i wella eu sgiliau iaith, yn ddysgwyr a siaradwyr rhugl,
- yn ymfalchio o weld staff yn gweithio'n ddwyieithog.

Cyfeirnod: cyfeiriwch at y Polisi Hybu a Hwyluso Defnydd o'r Gymraeg yn Fewnol.

Am ragor o wybodaeth ewch i dudalennau'r Gymraeg ar wefan y Cyngor. Os ydych angen cyngor yn ymwneud â gweithredu Safonau'r Gymraeg sydd wedi'i gosod ar Cyngor cysylltwch â Swyddog Polisi Iaith Carys.Lloyd-Jones@ceredigion.gov.uk

**Defnyddiwch eich Cymraeg – rhowch yr iaith ar waith**

Cabinet 28.12.2017